PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

EIN CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD

Cyd-ddatblygu'r Cynllun Gweithredu - drwy 'ffurfio strategol'

Cafodd ein Polisi Cynaliadwyedd ei adolygu ym mis Mehefin 2016 a phenderfynwyd mabwysiadu agwedd 'siapio strategol' yn hytrach na gosod Cynllun Gweithredu ffurfiol yn ei le.

Bydd hyn yn ein galluogi i annog cynifer o bobl ag sy'n bosibl (yn fyfyrwyr a staff) i helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i'r ffordd y byddwn yn gwneud pethau. Yn bwysicach bydd yn sicrhau fod ein blaenoriaethau a'n targedau yn rhai call, fydd yn caniatau i ni wella'n gyson a'n galluogi i asesu'n hunain.

Ein bwriad yw harneisio'r arloesedd sydd wedi ei ddosbarthu ar draws y Brifysgol a gwneud y mwyaf o'r rhwydweithiau sy'n bodoli a dangos i'r rhai sy'n cymryd rhan fod newid er gwell yn bosib.

Yn y modd hwn, byddwn yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau dynol y Brifysgol a chyflymu'r broses o ddysgu er mwyn cael mwy fyth o effaith.

Mabwysiadwyd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y fframwaith a ddefnyddiwn i ddeall Cynaliadwyedd.